**Eitem:** 18

**Teitl:** Adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd – dull gweithredu arfaethedig

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Cymeradwyaeth |
| **Amseru / Timing** | Brys |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Bod y Bwrdd yn:<br><br>- Nodi’r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer gwerthusiad y Cadeirydd.<br>- Nodi'r dull ar gyfer gwerthusiadau aelodau unigol o'r Bwrdd.<br>- Cytuno ar y dull arfaethedig o adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd.<br>- Cytuno ar y datganiadau i'w cynnwys yn holiadur effeithiolrwydd y Bwrdd.<br>- Cytuno i ddefnyddio hwylusydd allanol i gefnogi'r drafodaeth a datblygu amcanion. |
| **Risg / Risk** | Gall Bwrdd aneffeithiol arwain at broblemau lluosog. Mae’r rhain yn cynnwys y sefydliad yn methu â chyflawni ei amcanion, arweinyddiaeth a diwylliant gwael, methiant i achub ar gyfleoedd, perfformiad gwael a methiant i fodloni gofynion statudol a gofynion eraill. |
| **Cyllid / Finance** | Hwyluso allanol sesiwn adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd. Gellir cwrdd â'r gost o gyllideb eleni - cost i'w gadarnhau. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Blaenoriaeth 07: Bod yn sefydliad uchelgeisiol sy’n cael ei redeg yn dda, y gellir ymddiried ynddo. |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant / Equity, diversity and inclusion** | Mae asesiad effaith integredig wedi'i gynnal. Bydd yr holiadur dienw yn cael ei greu gan ddefnyddio ffurflen ddigidol a allai gael effaith negyddol ar y |

| | |
|---|---|
| | rhai sy'n agored i niwed yn ddigidol. Nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn effeithio ar unrhyw un o'n haelodau staff y Bwrdd presennol a fydd yn cymryd rhan, ond mae hyn yn rhywbeth i'w gadw mewn cof ar gyfer aelodau'r dyfodol – gallem gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed yn ddigidol lle bo angen.<br><br>Mae gan aelodau hefyd yr opsiwn i gwblhau'r holiadur yn Gymraeg. Mae hyn wedi amlygu rhywfaint o effaith gadarnhaol mewn perthynas â'r Gymraeg. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Prif Weithredwr |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Anfonwyd y dull arfaethedig a chwestiynau drafft i'r Bwrdd y tu allan i'r pwyllgor i gael sylwadau cynnar. |
| **Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting** | Ceri Sullivan, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddes y Bwrdd |
| **Dyddiad / Date** | 16.01.23 |

**Cefndir / Background**

Mae gwerthusiadau yn broses ddwy ffordd, gan edrych yn ôl i asesu a dathlu perfformiad y gorffennol ac edrych ymlaen at ddatblygu a gwella perfformiad yn y dyfodol.

Mae'n ofynnol i fyrddau cyrff sector cyhoeddus gynnal adolygiad effeithiolrwydd blynyddol. Mae'r disgwyliad hwn wedi'i nodi yn ein Dogfen Fframwaith. Rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiadau effeithiolrwydd Bwrdd blynyddol ac arfarniadau perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd yn ein Rheolau Sefydlog.

Mae manylion y gwahanol brosesau adolygu perfformiad wedi'u cynnwys yn nogfen adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd sydd i'w gweld yn Atodiad A. Mae'r prosesau hyn yn

gyson â'r prosesau sydd ar waith ar gyfer Cyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae datganiadau drafft wedi'u llunio i'w cynnwys yn holiadur adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd. Bydd yr ymatebion i'r holiadur yn llywio adroddiad effeithiolrwydd y Bwrdd. Mae’r datganiadau hyn i’w gweld yn Atodiad B.

O ystyried mai hwn yw adolygiad effeithiolrwydd cyntaf y Bwrdd, credwn y byddai aelodau'n elwa o hwyluso allanol i helpu i arwain y drafodaeth a helpu i sicrhau bod y Bwrdd yn gallu canolbwyntio ar y cyd ar gynnwys yr adroddiad ac ar gynhyrchu amcanion mewn ymateb i'r adroddiad.

## Manylion / Detail

**Camau Gweithredu ar gyfer y Bwrdd:**

- Nodi'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer gwerthusiad y Cadeirydd.
- Nodi'r dull ar gyfer gwerthusiadau aelodau unigol o'r Bwrdd.
- Cytuno ar y dull arfaethedig o adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd.
- Cytuno ar y datganiadau i'w cynnwys yn holiadur effeithiolrwydd y Bwrdd.
- Cytuno i ddefnyddio hwylusydd allanol i gefnogi'r drafodaeth a datblygu amcanion.